

Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy



Melanie Lawton

Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol

December 2019

Rhagair



Mae'n bleser mawr gen i gael cyflwyno Adroddiad Partneriaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy 2019. Mae hon wedi bod yn flwyddyn arbennig o heriol i ni a'n partneriaid yn y diwydiant, Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru a Network Rail.

Mae'r amhariad ffisegol a achoswyd gan y llifogydd ym mis Mawrth a'r gwaith cynnal a chadw pwysig, ynghyd ag ailadeiladu gorsaf Dolgarrog, wedi golygu bod cludiant ar y ffordd wedi cael ei ddarparu yn lle'r gwasanaeth rheilffordd am gyfnodau helaeth. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn, mae'n braf gwybod bod goleuni ym mhen draw'r twnnel, bron yn llythrennol.

Drwy gydol yr amhariad, rydym wedi ymdrechu i gadw cysylltiad â'n cwsmeriaid a mabwysiadwyr ein gorsafoedd. Cawsom ddathlu 140 o flynyddoedd ers i'r rheilffordd gyrraedd Blaenau Ffestiniog, ac roedd yn braf cynnal digwyddiad ym Mlaenau i nodi'r garreg filltir hanesyddol bwysig honno.

Yn dynn wrth sawdl newid i fasnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, edrychwn ymlaen yn 2020 at berthynas gadarnhaol gyda gweithredwr newydd llwybr Arfordir y Gorllewin, sef Avanti West Coast, fydd yn darparu gwell gwasanaethau i gysylltu â llinell Dyffryn Conwy, yn ogystal â gwasanaeth o Landudno i Lundain.

Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad i fy Is-gadeirydd, y Cynghorydd Annwen Daniels, fy nghydweithwyr ar y Bwrdd Partneriaeth am eu holl gefnogaeth yn ogystal â'n Swyddog Rheilffyrdd, Melanie Lawton, am ei gwaith ymroddedig a'i gallu i fynd i'r afael â heriau'r flwyddyn a fu.

Y Cynghorydd Philip Evans

Cadeirydd Partneriaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy

Rheilffordd Dyffryn Conwy

Mae Rheilffordd Dyffryn Conwy, sy'n rhan o rwydwaith 27 milltir o hyd Network Rail, yn cynnig un o'r profiadau prydferthaf a gewch chi ar drên ym Mhrydain. Mae 13 o orsafoedd yn gwasanaethu'r llinell: Llandudno, Deganwy, Cyffordd Llandudno, Glan Conwy, Tal y Cafn, Dolgarrog, Llanrwst, Betws-y-coed, Pont y Pant, Dolwyddelan, Pont Sarn Ddu a Blaenau Ffestiniog.

Mae aelodau Partneriaeth Rheilffordd Dyffryn Conwy yn cynnwys Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, Network Rail, Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Twristiaeth Gogledd Cymru a dau o gynrychiolwyr Mabwysiadwyr y Gorsafoedd.



Cychwyn gwlyb i 2019. Bu Rheilffordd Dyffryn Conwy ar gau am gyfnod helaeth yn 2019



yn dilyn storm Gareth ym mis Mawrth. Cydweithiodd y bartneriaeth a'i haelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r teithwyr a sicrhau y gallent deithio yn ystod y cyfnod hwnnw. Arweiniodd y Swyddog Rheilffyrdd y ffordd gydag ymweliadau gan y wasg a chyfweiliadau ar y teledu. Parhaodd Network Rail â chynlluniau i gau Twnnel Blaenau Ffestiniog ym mis Tachwedd 2019.

Mae gwaith yn mynd rhagddo yng ngorsaf Dolgarrog, gyda gwasanaeth amgen yn cael ei ddarparu hyd nes y bydd Network Rail yn dweud fel arall, ac mae'r gwaith o wella gorsafoedd yn parhau fel rhan o'r cynllun gwella gorsafoedd yng Nghyffordd Llandudno a Blaenau Ffestiniog.

Llwyddodd cydweithrediad partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru, Network Rail a Chynghorwyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i deithwyr a chymunedau a sicrhau y gallent deithio yn ystod y cyfnod o amhariad. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn Llanrwst a Blaenau Ffestiniog i hwyluso'r llif gwybodaeth.



Teithiodd trên stêm arbennig ar hyd y rheilffordd ym mis Awst i ddiolch i'r trigolion, y cymunedau, y busnesau a'r budd-ddeiliaid. Bendithiwyd y trên a'r rheilffordd gan y Tad Deiniol.



Ym mis Mai, bu i ni gefnogi Trafnidiaeth Cymru a Ken Skates AC yn lansiad **Gweledigaeth Rheilffyrdd Cymunedol** yng Ngorsaf Llandudno, gyda Swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol o Gymru a'r Gororau.



Daeth yr Eisteddfod i Lanrwst. Ym mis Awst, bu i'r bartneriaeth ymuno â chydweithwyr o Trafnidiaeth Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Lanrwst. Gorsaf Gogledd Lanrwst oedd y brif orsaf ar gyfer y digwyddiad. Cafodd teithwyr fwynhau gwell gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn.



Bu mabwysiadwyr gwirfoddol yr orsaf yn gweithio'n hynod o galed i gynnis croeso cynnes i'r ymwelwyr. Diolch yn arbennig i Optimistiaid Gogledd Lanrwst.

Ym mis Hydref, bu i ni helpu pobl i adnewyddu eu **cerdyn teithio rhatach** Trafnidiaeth Cymru gyda chyfres o sesiynau galw heibio i'r cyhoedd yn llyfrgelloedd Llandudno, Lanrwst a Bae Colwyn.



Ym mis Tachwedd, bu'r bartneriaeth yn dathlu'r ffaith i'r rheilffordd gyrraedd **Blaenau Ffestiniog 140 o flynyddoedd yn ôl**. Cynhaliom noson gysurus o ddathlu yn y dref gyda'r gymuned a chyfeillion y rheilffordd, a chafwyd cyflwyniadau arbennig gan gydweithwyr o Llechwedd, Antur Stiniog a'r gymdeithas hanesyddol leol.



Fel syrpréis arbennig i'r gymuned, mewn partneriaeth â Network Rail, goleuwyd mynedfa twnnel Blaenau Ffestiniog yn ystod y noson o ddathlu i'r cyhoedd gael ei weld.

Parhaodd yr **ymweliadau gan ysgolion** yn ystod y Gaeaf, gyda disgyblion o Lanrwst yn teithio ar y gwasanaeth. Ymunodd Heddlu Trafnidiaeth Prydain a'r Swyddog Cyswllt Ysgolion â ni am brynawn gwych o ddysgu am ddiogelwch ar y rheilffordd.

Ym mis Rhagfyr, cawsom groesawu **Siôn Corn** i Gyffordd Llandudno. Parciodd y ceirw yn yr orsaf tra bu'r dyn ei hun yn teithio i Landudno ar gyfer yr Orymdaith Nadolig flynyddol, gan gyrraedd yr orsaf wedi'i hebrwng gan yr Heddlu.



Bu i bawb fwynhau gwasanaeth carolau ym Mlaenau Ffestiniog yn Siop Antur Stiniog, Blaenau Bendigedig, gyda chefnogaeth y bartneriaeth.

O 15 Rhagfyr 2019 ymlaen, bydd 4 trên y dydd yn teithio ar hyd rheilffordd Dyffryn Conwy. Cefnogwyd **amserlen y Sul** gyda chydweithwyr yn swyddfa docynnau'r rheilffordd.



Gan edrych ymlaen tua 2020, bydd y bartneriaeth yn recriwtio Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol newydd, gan y bydd Melanie yn parhau ar ei thaith gyda'r rheilffordd ac yn ymuno â Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru fel Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol y Gogledd. Bydd partneriaid cyllido'r bartneriaeth yn cyfarfod ym mis Rhagfyr 2019 gyda golwg ar recriwtio ym mis Ionawr. Bydd cyfle i adolygu aelodaeth y bartneriaeth ac ystyried ehangu'r ardal i gynnwys Arfordir Gogledd Cymru.

Bydd y bartneriaeth yn parhau i gyfarfod bob chwarter, ym mis Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr. Bydd is-grŵp yn cyfarfod i fonitro'r gyllideb a recriwtio.

Archebwyd deunyddiau marchnata, gan gynnwys 20,000 o daflenni, a threfnwyd i'w dosbarthu. Cafodd chwe poster arddangos tynnu i fyny eu hargraffu a'u danfon.

Bydd y berthynas gyda Trafnidiaeth Cymru yn parhau a bydd sgysiau newydd ag Avanti West Coast yn cael eu meithrin. Edrychwn ymlaen at gael gweld eu gwasanaethau newydd i Landudno yn 2020.

Ar ôl recriwtio, bydd popeth yn ôl i'r arfer yn dilyn cyfnod sefydlu cychwynnol, ond disgwylir i'r swyddog newydd barhau i roi gweithgareddau'r cynllun busnes ar waith. Bydd gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn parhau, gyda'r swyddog rheilffyrdd yn cyflwyno negeseuon diogelwch y rheilffordd yn yr ysgolion, yn cydweithio â swyddogion rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ac yn hyrwyddo teithiau rheilffyrdd atyniadol.